# Glanhau eich dannedd

Mae glanhau dannedd eich plentyn yn bwysig iawn o ran iechyd y geg ond gall hyn fod yn heriol iawn os nad yw'ch plentyn yn mwynhau glanhau eu dannedd neu'n ei chael hi'n anodd. Dyma gyngor gwych i'ch helpu chi a'ch plentyn gyda'r dasg hon.

**Strategaethau Cyffredinol**




1. Brwsiwch eich dannedd ar yr un pryd â'ch plentyn, gadewch iddynt weld sut rydych chi'n gwneud hyn!

2. Gwnewch hyn yn gêm, gadewch i'ch plentyn frwsio'ch dannedd ac yna gallwch chi frwsio eu dannedd nhw.

3. Gosodwch ddrych ar yr un uchder â nhw fel y gallant weld ble mae angen brwsio.

4. Os yw sefyll i fyny i frwsio dannedd yn anodd, gadewch iddynt eistedd i lawr (ond gwnewch yn siŵr bod eu traed yn cael eu cynnal ar y llawr neu ar stôl).

5. Mae rhai plant yn ei chael hi'n anodd dilyn dilyniant tasg, helpwch eich plentyn i ddysgu'r dilyniant trwy ddilyn yr un broses bob tro, gall delweddau helpu plant i wneud hyn yn annibynnol.

6. Defnyddiwch amserydd gweledol neu ap brwsio dannedd i annog a chefnogi eich plentyn (gweler trosodd)

7. Defnyddiwch frwsh maint plentyn gyda phen bach a blew meddal.

8. Bydd brwsh gyda gafael neu garn trwchus yn haws i'w ddal.

9. Rhowch gynnig ar bast dannedd gyda chap fflip neu bwmp.

10. Os yw gwasgu'r tiwb yn anodd, rhowch gynnig ar wasgwr tiwb neu ddosbarthwr brws dannedd awtomatig.

**Adnoddau Defnyddiol**



**NUK Training toothbrush set**
Mae'n helpu plant i ddysgu sut i frwsio eu dannedd. Mae'r Set yn cynnwys 2 x frws - hyfforddwr glanhau a hyfforddwr brwsio. Mae hyfforddwr glanhau wedi'i gynllunio er mwyn cael ei gnoi ac mae'n glanhau ac yn tylino'r deintgig a'r daflod yn ofalus. Mae hyfforddwr brwsio yn helpu plant i ddod i arfer â brws dannedd ac mae'n glanhau eu dannedd cyntaf yn ofalus. Mae'n dod gyda chylch amddiffynnol / stand brws dannedd.

**Gwasgwr tiwb past dannedd**

Gafael llydan: mae'r gwasgwr tiwb yn gweithio'n dda ar gyfer tiwbiau sy'n 2 fodfedd neu lai o led. Mae'n gweithio ar diwbiau alwminiwm a phlastig, ac mae'n addas ar gyfer gwasgu past dannedd, tiwb hufen, ewyn glanhau neu eitemau eraill. Mae'n gyfleus: mae wedi'i ddylunio gyda handlen sy'n cylchdroi, rhowch eich past dannedd yn y siafft sy'n troi, yna trowch yr handlen.



**Dosbarthwr past dannedd awtomatig**

Mae ein hoffer dosbarthu past dannedd wedi'u gwneud o ddeunydd plastig ABS a gwellt gwenith o'r ansawdd uchaf. Mae'n ddibynadwy ac yn wydn a gallwch ei ddefnyddio'n ddiogel. Mae dosbarthwr past dannedd awtomatig yn mabwysiadu technoleg gwactod, yn pwmpio'r diferyn olaf o bast dannedd ac yn osgoi gorfod cyffwrdd y past dannedd yn uniongyrchol.




## Apiau Brwsio Dannedd Defnyddiol



**Brush DJ**
Mae Brush DJ yn chwarae 2 funud o gerddoriaeth y gall defnyddwyr ddewis o'u llyfrgelloedd cerddoriaeth eu hunain. Mae'r ap hefyd yn caniatáu ichi greu nodiadau atgoffa dyddiol i frwsio'ch dannedd yn ogystal â nodiadau atgoffa i ymweld â'ch deintydd.




**Disney Magic Timer**
Mae'r ap amserydd gweledol hwn yn defnyddio brws dannedd wedi'i animeiddio i annog plant i frwsio am gyfnod hirach trwy ddatgelu llun Disney yn araf wrth i'r amser fynd rhagddo. Gall plant hefyd sganio eu cynhyrchion Oral B, dewis cymeriadau ac ennill sticeri.



**Brush Up: Toothbrush Training**
Mae Brush Up yn defnyddio cymeriad Budd i gyfarwyddo plant tra'n brwsio eu dannedd. Gall plant weld eu hunain ar y sgrin wrth ymyl Budd tra'u bod yn brwsio ac ennill 'gwobr' gyda'u hasesiadau hunlun.



**Aquafresh Brush Time**
Mae Capten Aquafresh a'r Nurdles yn annog plant i frwsio eu dannedd trwy ganu a dawnsio am 2 funud. Gall y teulu cyfan gymryd rhan. Mae hyd at 4 proffil defnyddiwr.




**Colgate Magik**
Mae'r ap hwn yn gweithio ar y cyd â brws dannedd Colgate Magik i ganfod sut mae plentyn yn brwsio eu dannedd. Gall plant gadw golwg ar eu harferion brwsio a defnyddio realiti estynedig i wneud brwsio yn fwy o hwyl.